Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Rhyngwladol
International Health

# Adroddiad Sganio Gorwelion Rhyngwladol a Dysgu

## Ymgyrchoedd cyfathrebu er derbyn brechlynnau

Adroddiad 43, Chwefror 2023

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

## Trosolwg

Dechreuwyd ar yr adroddiadau Sganio Gorwelion Rhyngwladol a Dysgu fel rhan o'r ymateb iechyd y cyhoedd COVID-19, i gefnogi mesurau ymateb deinamig ac adfer a chynllunio yng Nghymru. Gwnaethant amrywio o ran ffocws a chwmpas, gan ddibynnu ar y sefyllfa COVID-19 esblygol ac anghenion iechyd y cyhoedd/polisi ar y pryd. Roedd yr adroddiadau'n canolbwyntio ar dystiolaeth, data, profiad, polisi a mesurau iechyd cyhoeddus COVID-19 rhyngwladol, ymagweddau pontio ac adfer. Coladwyd dysgu a gwybodaeth ac fe'i syntheseiddiwyd i ddeall ac archwilio atebion ar gyfer ymdrin ag effeithiau iechyd, lles, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol parhaus a datblygol (niweidiau a buddion posib) y pandemig.

Ehangwyd cwmpas yr adroddiadau yng ngwanwyn 2022 i ymdrin â phynciau iechyd cyhoeddus â blaenoriaeth, gan gynnwys ym meysydd gwella a hybu iechyd, diogelu iechyd, ac iechyd y cyhoedd ym maes gofal iechyd. Mae pynciau a chanfyddiadau'r adroddiad wedi'u halinio â phrosesau gwneud penderfyniadau a gwaith parhaus Llywodraeth Cymru, y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yn helpu i'w cyfeirio. Fe'u lledaenir hefyd i rwydwaith ehangach o weithwyr proffesiynol a phartneriaid iechyd (cyhoeddus) yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae hyn yn rhan o ymagwedd systematig ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru at gywain gwybodaeth a throsi tystiolaeth i bolisi ac arfer, gan gefnogi camau cydlynol, cynhwysol ac wedi'u cyfeirio gan dystiolaeth, sy'n datblygu gweithrediad Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chynllun strategol Cymru Iachach tuag at Gymru sy'n fwy iach, cyfartal, cydnerth, ffyniannus a chyfrifol yn fyd-eang.

**Ymwadiad:** Mae'r adroddiadau'n darparu crynodeb lefel uchel o ddysgu o brofiadau bywyd go iawn mewn detholiad o wledydd, ac o amrywiaeth o lenyddiaeth wyddonol a llwyd, gan gynnwys ffynonellau gwybodaeth i ganiatáu ymchwil bellach. Nid yw'r adroddiadau'n gynhwysfawr ac nid ydynt wedi'u hanelu at ddarparu adolygiad, dadansoddiad na sicrwydd ansawdd tystiolaeth fanwl, pendant neu drylwyr. Fe'u bwriedir i gynnig cipolwg cryno o dystiolaeth, polisi ac arfer cyfredol, gan rannu enghreifftiau perthnasol o sawl gwlad ynghyd ag arweiniad ac egwyddorion cyrff rhyngwladol allweddol (ag enw da).

## Ffocws ar

- **Ymgyrchoedd cyfathrebu er derbyn brechlynnau**

## Cynnwys

**Ar gip: crynodeb o ddysgu rhyngwladol** .......... 3
**Cyflwyniad** .......... 5
**Ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n benodol i frechlynnau** .......... 14

## Ar gip: crynodeb o ddysgu rhyngwladol

***“Mae pobl yn anghofio'r pethau rhyfeddol y mae iechyd cyhoeddus yn eu gwneud i'w diogelu nhw.***
***Rydym yn gweithio i'w hatgoffa pa mor bwysig yw iechyd y cyhoedd, gyda brechlynnau yn un ohonyn nhw.”***
*Greg Endler, Dirprwy Gyfarwyddwr Hybu Iechyd ac Addysg, Adran Iechyd Talaith Washington*[1]

### Ymgyrchoedd cyfathrebu er derbyn brechlynnau: trosolwg

- Mae brechu'n atal 3.5-5 miliwn o farwolaeth bob blwyddyn
- Mae **cyfraddau brechu'n is-optimaidd** ar hyn o bryd
- **Nid yw argaeledd brechlynnau'n ddigon** i ddiogelu iechyd
  - ✓ Mae **petruster brechlynnau a chamwybodaeth ddigidol** yn brif fygythiadau i iechyd byd-eang
  - ✓ Mae **sawl ffactor ynghlwm wrth wneud penderfyniadau** ynghylch derbyn brechlyn
- Gall ymgyrchoedd cyfathrebu ddarparu **gwybodaeth, cynhyrchu galw, dylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau** er mwyn cynyddu manteisio ar frechlynnau, a gallant gynnwys:
  - ✓ Eiriolaeth
  - ✓ Ymfyddino cymdeithasol
  - ✓ Rhaglen cyfathrebu am frechlynnau

### Ysgogyddion a rhwystrau i ddiweddaru brechlynnau

- Mae **ysgogyddion** i fanteisio ar frechlynnau'n cynnwys **ymddiriedaeth**
- **Mae adeiladu a chynnal ymddiriedaeth** yn cynnwys:
  - ✓ Iaith glir a dealladwy, gan osgoi jargon
  - ✓ Gwrando ac ymateb i bryderon
  - ✓ Ailadrodd negeseuon craidd; hyder wrth ddatgan meysydd o ansicrwydd
- Mae **ysgogyddion ymddygiadol a chymdeithasol (BeSD)** manteisio ar frechlynnau'n cynnwys: meddwl a theimlo; prosesau cymdeithasol (e.e. normau cymdeithasol); materion ymarferol (e.e. argaeledd, fforddadwyedd, etc.)
- Ymhlith y **rhwystrau** i dderbyn brechlynnau mae **petruster brechlynnau a chamwybodaeth (ddigidol)**
- **Mae petruster brechlynnau** yn disgrifio **continwwm o gredoau** sy'n **amrywio** yn ôl cyd-destun, brechlyn, amser a lle, ac y dylanwadir arno gan y **"3 C”:**
  - ✓ **Hunanfoddhad (Complacency):** canfyddiad isel o risgiau o glefydau y gellir eu hatal trwy frechu
  - ✓ **Cyfleustra (Convenience):** argaeledd, hygyrchedd, ansawdd canfyddedig, cyd-destun diwylliannol, etc.
  - ✓ **Hyder (Confidence):** ymddiriedaeth mewn diogelwch ac effeithiolrwydd, etc.
- Mae'r **technegau** a ddefnyddir i **ledaenu camwybodaeth** yn cynnwys:
  - ✓ Creu arbenigwyr ffug a difrïo arbenigwyr sefydledig

[1] https://www.astho.org/communications/blog/a-conversation-on-vaccine-confidence-with-the-washington-state-department-of-health/

- ✓ Aflunio'r wyddoniaeth a dewis pa "dystiolaeth" benodol sydd i'w chyflwyno
- ✓ Defnyddio cyfatebiaethau ffug i ddod i gasgliadau afresymegol

- Mae **cywiro camwybodaeth** yn cynnwys:
  - ✓ **Achub y blaen ("chwalu ymlaen llaw")**, gyda'r nod o helpu pobl i nodi diffygion cyn dod ar draws camwybodaeth
  - ✓ **Ymateb ("chwalu")**, ymdrin â chamwybodaeth ar sail yr achos unigol

## Elfennau allweddol ymgyrchoedd cyfathrebu brechlynnau

- **Teilwra** negeseuon ar gyfer cymunedau penodol
- Rhaid i'r neges fod yn **addas yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol** ar gyfer y gymuned darged
- Canolbwyntio ar **fanteision**
- **Arfarnu** ffynonellau gwybodaeth am frechlynnau; **“chwalu ymlaen llaw”**
- Rhaid i'r cyfathrebu **gyd-fynd â pholisïau ychwanegol** a mesurau iechyd y cyhoedd
- Cynyddu presenoldeb ar y **cyfryngau cymdeithasol**
- Cynnwys **gweithwyr gofal iechyd proffesiynol** wrth hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd
- Datblygu sylfaen gref o **bartneriaethau cyhoeddus/preifat aml-sector**
- Datblygu **negeseuon cyson** ar draws gwahanol asiantaethau i leihau dryswch
- Casglu **tystiolaethau positif** gan y rhai sydd wedi derbyn y brechlyn

## Gwella tegwch cyrhaeddiad yr ymgyrch

- **Ymagwedd Teilwra Rhaglenni Imiwneiddio** at dargedu strategaethau i wella'r nifer sy'n manteisio
- Cydnabod bod **llythrennedd iechyd** yn benodol i'r cynnwys a'r cyd-destun
- Ymagweddau sy'n **canolbwyntio ar y gymuned**
- Sicrhau **bod gwefannau'n hygyrch**
- Cynnwys **profiadau pobl anabl** mewn ymgyrchoedd
- Gellir cymhwyso strategaethau penodol i wella tegwch iechyd gan dargedu poblogaethau sy'n **agored i niwed neu dan anfantais** , gan gynnwys:
  - ✓ Lleiafrifoedd ethnig, crefydd a hil
  - ✓ Llythrennedd isel a rhwystrau o ran iaith
  - ✓ Pobl sy'n feichiog
  - ✓ Pobl anabl
  - ✓ Ceiswyr lloches a ffoaduriaid
  - ✓ Plant a phobl ifanc

## Ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n benodol i frechlynnau

- Brechiad **HPV**, Astudiaeth achos Denmarc *(tt14)*
- Brechiad **MMR**, Astudiaeth achos Sweden *(tt16)*
- Brechiad **Mpox**, Astudiaeth achos yr Unol Daleithiau *(tt17)*
- Ymgyrchoedd i wella brechu yn erbyn **COVID-19, y ffliw a polio** *(tt 18-23)*

## Cyflwyniad

***Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar enghreifftiau o ymgyrchoedd llywodraethau. Yn aml, nid yw canfyddiadau ymchwil a gwerthuso ffurfiannol ar gael i'r cyhoedd. Daw enghreifftiau o ffynonellau eraill hefyd gan gynnwys astudiaethau ymchwil.***

**Mae brechu'n atal 3.5-5 miliwn o farwolaethau bob blwyddyn:**[2]

- Bydd brechiadau'n parhau i fod yn **allweddol i ddiogelu iechyd pobl**, wrth i glefydau newydd a gludir gan anifeiliaid ddod i'r amlwg[3]
- Mae **cyfraddau** brechu**'n is-optimaidd**, er enghraifft:
  - ✓ Yn fyd-eang, amcangyfrifir na chafodd 25 miliwn o blant dan 1 mlwydd oed eu brechiadau a argymhellir yn 2021 (y mwyaf ers 2009)[4]
  - ✓ Mae data'r DU yn dangos gostyngiad yn nifer y brechiadau mewn plentyndod yn 2021/22 o gymharu â 2020/21[5,6]
- Nid yw **argaeledd brechlynnau'n ddigon** i ddiogelu iechyd:
  - ✓ Mae'n **rhaid** i'r boblogaeth **dderbyn brechlynnau**: gall ymddygiad rwystro llwyddiant rhaglenni brechu, gwaredu neu ddileu afiechydon[3]
  - ✓ Mae **sawl ffactor ynghlwm wrth wneud penderfyniadau ynghylch derbyn brechlyn**, gan gynnwys ffactorau y gall strategaethau cyfathrebu ddylanwadu arnynt[7,8,9] *(Ffigur 1 a 2)*
- Dylid ategu ymgyrchoedd cyfathrebu drwy ymyriadau sy'n **lleihau rhwystrau ac yn hyrwyddo ysgogyddion** i dderbyn brechlynnau (i oresgyn materion ymarferol)[9]
- Gall ymgyrchoedd cyfathrebu ddarparu gwybodaeth, cynhyrchu galw, dylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau er mwyn cynyddu manteisio ar frechlynnau, a gallant gynnwys:[10]
  - ✓ Eiriolaeth
  - ✓ Ymfyddino cymdeithasol
  - ✓ Rhaglen cyfathrebu am frechlynnau

### Ysgogyddion i dderbyn brechlynnau

Mae **ymddiriedaeth** yn ysgogydd pwysig i dderbyn brechlynnau:

- Gall **diffyg ffydd mewn awdurdodau** arwain at ddrwgdybiaeth o raglenni darparu brechlynnau
- Mae **adeiladu a chynnal ymddiriedaeth**, ac ymateb i ddigwyddiadau niweidiol yn cynnwys:[8]
  - ✓ Iaith glir a dealladwy, gan osgoi jargon
  - ✓ Gwrando ac ymateb i bryderon
  - ✓ Ailadrodd negeseuon craidd; hyder wrth ddatgan meysydd o ansicrwydd
- **Ysgogyddion ymddygiadol a chymdeithasol (BeSD)** i dderbyn brechlynnau (*Ffigur 1*):[11]


---

[2] *Vaccines and immunization (who.int)*
[3] *Wang Z, Bauch CT, Bhattacharyya S, d'Onofrio A, Manfredi P, Perc M, et al. Statistical physics of vaccination. Physics Reports. 2016 Dec 9;664:1–113.*
[4] *Immunization coverage (who.int)*
[5] *Mae data'n ymwneud â'r brechiadau rheolaidd a gynigir i bob plentyn hyd at 5 oed, sy'n deillio o 'Cover of Vaccination Evaluated Rapidly (COVER)'*
[6] *https://digital.nhs.uk/data-and-information/publications/statistical/nhs-immunisation-statistics/2021-22*
[7] *Vaccine hesitancy (tandfonline.com)*
[8] *https://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0004/329647/Vaccines-and-trust.PDF*
[9] *https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/354458/WER9720-eng-fre.pdf*
[10] *https://www.ecdc.europa.eu/sites/default/files/media/en/publications/Publications/TER-Immunisation-and-trust.pdf*
[11] *https://www.who.int/publications/i/item/who-wer9720-209-224*

- ✓ Y BeSD ar gyfer derbyn brechlynnau yw: *“credoau a phrofiadau sy'n benodol i frechu y gellir o bosib eu haddasu i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn”*
- ✓ Mae ymyriadau y gwyddys eu bod yn gwella cyfraddau brechu'n cael eu **mapio** i bob parth[9]

***Ffigur 1. Fframwaith ysgogyddion ymddygiadol a chymdeithasol (BeSD) manteisio ar frechiadau Sefydliad Iechyd y Byd***

*Ffynhonnell: WHO[12] (Ffigur heb fod ar gael yn Gymraeg)*




## Rhwystrau i fanteisio ar frechlynnau

Mae **petruster brechlynnau** yn disgrifio continwwm o gredoau o dderbyn yn llwyr i wrthod yn llwyr (Ffigur 2)[13]

- Mae'r rhai sy'n gwrthod brechlynnau yn y lleiafrif,[14][15] fodd bynnag maent yn parhau i fod yn broblemus
- Mae clefydau heintus iawn yn gofyn am **lefelau uchel o imiwnedd yn y boblogaeth**
- **Nid yw petruster brechlynnau wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws y boblogaeth**: mae clystyrau daearyddol o betruster yn golygu bod gan rai cymunedau lefelau uchel o bobl sydd heb eu brechu'n ddigonol[16,17]
- Mae **petruster** yn amrywio yn ôl cyd-destun, brechlyn, amser a lle, a dylanwadir arno gan y **"3 C”:**[18]
  - ✓ **Hunanfoddhad (Complacency):** canfyddiad isel o risgiau o glefydau y gellir eu hatal trwy frechu; o bosib oherwydd ymgyrchoedd brechu llwyddiannus yn y gorffennol
  - ✓ **Cyfleustra (Convenience):** argaeledd a hygyrchedd brechlynnau; canfyddiadau o ansawdd; cyd-destun diwylliannol; llythrennedd iaith ac iechyd
  - ✓ **Hyder (Confidence)**: ymddiriedaeth mewn diogelwch ac effeithiolrwydd, rhaglenni cyflwyno brechlynnau, a llunwyr polisi

---


[12] https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/354458/WER9720-eng-fre.pdf
[13] MacDonald NE, SAGE Working Group on Vaccine Hesitancy. Vaccine hesitancy: Definition, scope and determinants. Vaccine. 2015 Aug 14;33(34):4161–4
[14] Larson H, Figueiredo A de, Karafillakis E, Rawal M. State of vaccine confidence in the EU 2018 [Rhyngrwyd]. LU: Publications Office of the European Union; 2018 [dyfynnwyd 2022 Hyd 23]. Ar gael yn: https://data.europa.eu/doi/10.2875/241099
[15] Luyten J, Bruyneel L, van Hoek AJ. Assessing vaccine hesitancy in the UK population using a generalized vaccine hesitancy survey instrument. Vaccine. 2019 Apr 24;37(18):2494–501
[16] Faasse, K., Chatman, C. J., a Martin, L. R. (2016). A comparison of language use in pro- and anti-vaccination comments in response to a high profile Facebook post. Vaccine, 34(47), 5808–5814. https://doi.org/10.1016/j.vaccine.2016.09.029
[17] Tomeny, T. S., Vargo, C. J., ac El-Toukhy, S. (2017). Geographic and demographic correlates of autism-related anti-vaccine beliefs on Twitter, 2009-15. Social Science & Medicine (1982), 191, 168–175. https://doi.org/10.1016/j.socscimed.2017.08.041
[18] https://www.asset-scienceinsociety.eu/sites/default/files/sage_working_group_revised_report_vaccine_hesitancy.pdf

**Mae camwybodaeth yn lleihau'r niferoedd sy'n derbyn brechlynnau**

- Mae enghraifft o fraw brechlyn di-sail yn cynnwys brechlyn y frech goch, clwy'r pennau, a rwbela (MMR) a'i gyswllt cyfeiliornus ag awtistiaeth[19]
  - ✓ Ni ddaethpwyd o hyd i dystiolaeth i gefnogi'r ddolen hon[20,21,22]
  - ✓ Serch hynny, mae'n parhau i fod yn rheswm blaenllaw dros wrthod neu oedi wrth dderbyn brechlyn MMR[23]

***Ffigur 2. Model cysyniadol o betruster brechlynnau***

*Ffynhonnell: Dube et al[24] (Ffigur heb fod ar gael yn Gymraeg)*




- Mae **"epidemig" o gamwybodaeth** wedi cyd-fynd â'r pandemig COVID-19[25]
- Mae'r technegau a ddefnyddir **i ledaenu camwybodaeth** yn cynnwys:[26,27,28]

---

[19] *Wakefield, A. J., Murch, S. H., Anthony, A., Linnell, J., Casson, D. M., Malik, M., Berelowitz, M., Dhillon, A. P., Thomson, M. A., Harvey, P., Valentine, A., Davies, S. E., a Walker-Smith, J. A. (1998). WEDI'I DYNNU'N ÔL: Ileal-lymphoid-nodular hyperplasia, non-specific colitis, and pervasive developmental disorder in children. The Lancet, 351(9103), 637–641. https://doi.org/10.1016/S0140-6736(97)11096-0*

[20] *Taylor, Miller, E., Farrington, C. P., Petropoulos, M. C., Favot-Mayaud, I., Li, J., a Waight, P. A. (1999). Autism and measles, mumps, and rubella vaccine: No epidemiological evidence for a causal association. Lancet (Llundain, Lloegr), 353(9169), 2026–2029. https://doi.org/10.1016/s0140-6736(99)01239-8*

[21] *Taylor, Swerdfeger, A. L., ac Eslick, G. D. (2014). Vaccines are not associated with autism: An evidence-based meta-analysis of case-control and cohort studies. Vaccine, 32(29), 3623–3629. https://doi.org/10.1016/j.vaccine.2014.04.085*

[22] *Hviid, A., Hansen, J. V., Frisch, M., a Melbye, M. (2019a). Measles, Mumps, Rubella Vaccination and Autism: A Nationwide Cohort Study. Annals of Internal Medicine, 170(8), 513–520. https://doi.org/10.7326/M18-2101*

[23] *https://www.statista.com/statistics/665592/reasons-families-refused-vaccinations-health-care-professionals-us/*

[24] *Vaccine hesitancy (tandfonline.com)*

[25] *https://www.unicef.org/media/93661/file/Vaccinemessagingguide.pdf*

[26] *Kata A. Anti-vaccine activists, Web 2.0, and the postmodern paradigm--an overview of tactics and tropes used online by the anti-vaccination movement. Vaccine. 2012 May 28;30(25):3778–89*

[27] *Leask JA, Chapman S. An attempt to swindle nature: press anti-immunisation reportage 1993-1997. Aust N Z J Public Health. 1998 Feb;22(1):17–26*

[28] *https://apps.who.int/iris/handle/10665/343301*

- ✓ Creu arbenigwyr ffug a difrïo arbenigwyr sefydledig
- ✓ Aflunio'r wyddoniaeth a dewis pa "dystiolaeth" benodol sydd i'w chyflwyno
- ✓ Defnyddio cyfatebiaethau ffug i ddod i gasgliadau afresymegol

– Mae **ymgyrchoedd cywiro camwybodaeth** fel arfer yn anelu at **ddatgymalu'r** technegau hyn trwy:
  - ✓ **Achub y blaen ("chwalu ymlaen llaw")**, gyda'r nod o helpu pobl i nodi diffygion mewn camwybodaeth cyn iddynt ddod ar ei thraws[29,30]
  - ✓ **Ymateb ("chwalu"),** sy'n ymdrin â darnau o gamwybodaeth ar sail yr achos unigol[29,31,32]

Mae **petruster brechlynnau a chamwybodaeth ddigidol** yn fygythiadau allweddol i iechyd byd-eang:[33,34]

– Mae **diffyg porthgadw a gwirio ffeithiau** gyda gwybodaeth ar-lein[35]

– Gall **dod i gysylltiad** â chamwybodaeth am 5-10 munud leihau bwriadau i fanteisio ar frechlynnau[36,37,38]

– Bu i **fodelu effaith camwybodaeth ar dderbyn y brechlyn COVID-19** yng Nghanada (Mawrth 1 - Tachwedd 30, 2021) amcangyfrif **petruster brechlynnau ymysg 2.35 miliwn o bobl**, a gyfrannodd at yr achosion ychwanegol a ganlyn:[39] 198,000 o achosion COVID-19; 13,000 yn gorfod aros mewn ysbyty; 2,800 o farwolaethau; $300 miliwn mewn costau ysbyty

## Ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n darparu addysg ar frechlynnau

– Canllawiau **arfer gorau** ar ymateb i wadwyr brechlyn uchel eu cloch yn gyhoeddus (Blwch 1)[40]

– Ymhlith yr **ymagweddau** ar gyfer ymgyrchoedd cyfathrebu brechlynnau mae (Tabl 1):
  - ✓ Wedi'u cydgrynhoi o **sawl math o arweiniad cyfathrebu "arfer gorau"** ac effeithiol
  - ✓ Wedi'i strwythuro gan ddefnyddio'r **model cyfathrebu "Pum W"**[41]

– **Pecynnau cymorth cyfathrebu** ynghylch brechlynnau (Blwch 2)

***Blwch 1. Crynodeb o'r arweiniad arfer gorau ar ymateb i wadwyr brechlyn uchel eu cloch yn gyhoeddus[40]***

1) Paratoi tair neges syml allweddol; ailadrodd nhw
2) Cyfathrebu'r hyn a gyflawnwyd hyd yma a beth sydd angen ei wneud
3) Dweud y gwir; bod yn onest ac yn dryloyw
4) Peidio ag ailadrodd dadleuon gwrth-frechlyn (gall hyn atgyfnerthu camwybodaeth yn anfwriadol); ymateb gyda ffeithiau
5) Defnyddio termau cynhwysol i bwysleisio hunaniaeth a rennir gyda'r gynulleidfa
6) Tanlinellu'r consensws gwyddonol o ran diogelwch ac effeithiolrwydd brechlynnau
7) Pwysleisio'r manteision cymdeithasol (e.e., imiwnedd cymunedol)

*[29] Ecker UKH, Lewandowsky S, Cook J, Schmid P, Fazio LK, Brashier N, et al. The psychological drivers of misinformation belief and its resistance to correction. Nat Rev Psychol. 2022 Jan;1(1):13–29*
*[30] Vivion M, Anassour Laouan Sidi E, Betsch C, Dionne M, Dubé E, Driedger SM, et al. Prebunking messaging to inoculate against COVID-19 vaccine misinformation: an effective strategy for public health. Journal of Communication in Healthcare. 2022 Jul 3;15(3):232–42.*
*[31] https://www.climatechangecommunication.org/debunking-handbook-2020/*
*[32] Swire-Thompson B, Cook J, Butler LH, Sanderson JA, Lewandowsky S, Ecker UKH. Correction format has a limited role when debunking misinformation. Cognitive Research: Principles and Implications. 2021;6.*
*[33] https://www.weforum.org/reports/global-risks-report-2022/digest/*
*[34] https://www.who.int/news-room/spotlight/ten-threats-to-global-health-in-2019*
*[35] https://doi.org/10.1177/1529100612451018*
*[36] Betsch C, Renkewitz F, Betsch T, Ulshöfer C. The influence of vaccine-critical websites on perceiving vaccination risks. J Health Psychol. 2010 Apr;15(3):446–55*
*[37] Jolley D, Douglas KM. The effects of anti-vaccine conspiracy theories on vaccination intentions. PLoS One. 2014;9(2):e89177.*
*[38] Loomba S, de Figueirdo A, Piatek SJ, de Graaf K, Larson H. Measuring the impact of COVID-19 vaccine misinformation on vaccination intent in the UK and USA. Nature Human Behaviour. 2021;5:338–48.*
*[39] https://cca-reports.ca/reports/the-socioeconomic-impacts-of-health-and-science-misinformation/*
*[40] https://www.who.int/europe/publications/i/item/WHO-EURO-2017-2899-42657-59427*
*[41] https://www.healthknowledge.org.uk/public-health-textbook/organisation-management/5a-understanding-itd/effective-communication*

*Blwch 2. Pecynnau cymorth cyfathrebu brechlynnau*

**Ewrop**

- Canllawiau cyfathrebu ar imiwneiddio (ECDC)
- DOGFEN WAITH STAFF Y COMISIWN ar gyfathrebu â'r cyhoedd a'r cyfryngau ynghylch y Pandemig (H1N1) 2009 (ECDC)
- #UnitedInProtection Pecyn Cymorth (ECDC)
- Pecyn cymorth cyfryngau cymdeithasol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Arweiniad ar ddarparu cymorth ar gyfer poblogaethau sy'n agored i niwed yn feddygol ac yn gymdeithasol mewn gwledydd yr UE/AEE a'r Deyrnas Unedig yn ystod y pandemig COVID-19 (ECDC)

**Unol Daleithiau**

- Pecyn Cymorth ar gyfer Cyrraedd Rhieni a Chleifion (CDC)
- Menter Pecyn Cymorth Addysg Gymunedol y Brechlyn COVID-19 (Ad Council)
- Pecyn cymorth ar gyfer Cymunedau Duon (Ad Council)
- Canllaw Cyfathrebu Newydd yn Cynnig Awgrymiadau ac Iaith Seiliedig ar Ymchwil ar gyfer Meddygon (Sefydliad de Beaumont)
- Cynghorion Cyfathrebu am y Brechlyn (Sefydliad de Beaumont)
- Pecyn cymorth addysg y brechlyn (Cymdeithas Darlledwyr Genedlaethol)
- Hygyrchedd Gwefannau: Gwella Mynediad i Gofrestru am y Brechlyn COVID-19 a Thu Hwnt (ASTHO)

**Byd-eang**

- Canllaw Negeseuon y Brechlyn (UNICEF)
- Pecyn cymorth adnoddau cyfathrebu ac ymgysylltu cymunedol i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn (Clymblaid dros Frechu / IMMUNION)
- Pecyn cymorth hyder yn y brechlyn (Meddygon y Byd)
- Cefnogi brechu: Pecyn cymorth ar gyfer gweithwyr iechyd cymunedol (Prifysgol Stanford)
- Pecyn Cymorth Gwaredu Polio (Grŵp CORE)

*Tabl 1. Ymagweddau ar gyfer ymgyrchoedd cyfathrebu*

| Ymagwedd | Enghreifftiau o fewn ymgyrchoedd cyfathrebu |
|---|---|
| **Cynllunio / ymchwil ffurfiannol** | |
| Diffinio'r **gynulleidfa darged a'r segmentau o fewn y grŵp hwn**[42] | – Mae **ymagwedd WHO o Deilwra Rhaglenni Brechu (TIP) yn nodi:**[43]<br>✓ Grwpiau o fewn poblogaeth sydd â chyfraddau brechu is-optimaidd<br>✓ Rhwystrau/ysgogyddion i dderbyn brechlynnau<br>✓ **Ymyriadau wedi'u teilwra i wella'r nifer sy'n manteisio ar frechlynnau** |
| Nodi **rhwystrau a sianeli negeseua penodol** | – **Gwrando ar farn y cyhoedd** [42] (e.e., drwy'r cyfryngau) a dilyn arolygon/adroddiadau[44] i ddeall canfyddiadau, ofnau ac agweddau[45] |
| **Pwy ddylai gael gwybod?** | |
| **Teilwra negeseuon ar gyfer cymunedau penodol**[46,47] Mae strategaethau a yrrir gan gymunedau sy'n benodol i wahanol grwpiau'n gweithio'n dda.[48]<br><br>**Buddsoddi mewn amrywiaeth, tegwch a chynhwysiad**.[48] | – Cymerodd Adran Iechyd Talaith Washington yn yr Unol Daleithiau, ymagwedd "**filltir o led**" (roedd ymgyrchoedd torfol yn cwmpasu'r dalaith gyfan) a "**milltir o ddyfnder**" (mynd i wahanol gymunedau e.e., gwahanol grwpiau hil ac ethnig, grwpiau economaidd-gymdeithasol a rhanbarthau) **a gynyddodd y nifer fu'n manteisio ar y brechlyn COVID-19**[48]<br>– Mae WHO yn cynghori teilwra i gyd-destun diwylliannol:[42]<br>✓ Diwylliannau unigolyddol: ffocws ar risg unigol a dewisiadau personol<br>✓ Diwylliannau cymundodaidd: ffocws ar risgiau i eraill; normau a rennir<br>– Gweithiodd Adran Iechyd Talaith Washington [48] â'r gymuned Latinx i deilwra eu hymgyrch COVID-19 trwy ddefnyddio **cantorion Mariachi i hyrwyddo negeseuon trwy gân**<br>*Gweler tabl 2* |

[42] https://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0004/329647/Vaccines-and-trust.PDF
[43] https://www.who.int/europe/activities/tailoring-immunization-programmes-(tip)
[44] https://health.ec.europa.eu/system/files/2022-11/vaccination_vaccine-preventable-diseases_factsheet_en.pdf
[45] https://health.ec.europa.eu/publications/state-vaccine-confidence-eu-2022_en
[46] Community Partners Offer Key Insights to Health Departments for Increasing Vaccine Confidence (astho.org)
[47] https://eurohealthnet.eu/publication/improving-vaccine-equity-addressing-barriers-and-building-capacity-to-improve-vaccine-uptake/
[48] A Conversation on Vaccine Confidence with the Washington State Department of Health | ASTHO

| **Pryd dylen nhw gael gwybod?** | |
|---|---|
| **Alinio â digwyddiadau arbennig neu gyflwyno rhaglenni brechu;** megis **Wythnos Imiwneiddio Ewrop**[49] | – Nod mentrau eiriolaeth a symudedd cymdeithasol mewn cymunedau gwledig ac anghysbell yn Niger yw annog manteisio ar frechlyn polio drwy **ddiwrnodau imiwneiddio cenedlaethol**[50]<br>– **Ym Mrasil,** cyflawnwyd cyfraddau brechu HPV uchel ymysg merched 10-16 oed (cyfradd cwblhau tri dos o 97%) trwy **ymgyrch frechu HPV mewn ysgolion.**[51] **Roedd yr ymgyrch** (a gynhaliwyd bythefnos cyn cyflwyno'r brechlyn mewn 19 o ysgolion) yn cynnwys:<br>✓ Prosiectau HPV mewn ysgolion<br>✓ Sesiynau gwybodaeth a arweiniwyd gan nyrsys<br>✓ Cyfarfodydd ysgol a arweiniwyd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid<br>✓ Cefnogaeth gan athrawon ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid anllythrennog |
| **Beth ddylen nhw gael gwybod?** | |
| **Cadwch e'n syml,** osgoi jargon technegol.[52]<br>Rhaid i'r neges fod yn addas yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol ar gyfer y gymuned darged, yn ddealladwy, yn llawn parch, ac yn anfeirniadol.[46] | – Mae'r ymgyrch genedlaethol **"It's up to you"** yn yr Unol Daleithiau[53] yn pwysleisio **dewis a phenderfyniadau gwybodus trwy ymagwedd empathig**<br>✓ Mae partneriaethau o sefydliadau iechyd cyhoeddus, marchnata, a chyfryngau'n galluogi teilwra a lledaenu negeseuon i gynulleidfaoedd a dargedir<br>✓ Mae un fideo yn dangos breichiau o wahanol liwiau croen a braich robotig<br>✓ Cydweithrediadau gydag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys: sefydliadau ffydd, brandiau (e.e., Apple, Disney) a'r cyfryngau (e.e., Facebook, Fox) i ymestyn yr ymgyrhaeddiad |
| Bod yn gadarnhaol a **chanolbwyntio ar fanteision cael brechlyn**, nid dim ond y risgiau o beidio â chael brechlyn.[48]<br>Mae ymchwil y DU yn argymell cyfathrebiadau sy'n arwain gyda:[54]<br>– Thrafod y system imiwn, yna ciwio bod **brechlynnau'n "hyfforddi'r" system imiwn**<br>– **Mantais brechlynnau i bawb,** wedi'i ddilyn gan benderfyniadau unigol | – **Hunan-amddiffyniad rhag COVID-19** oedd y prif symbylydd i dderbyn y brechlyn yn Lloegr[55] a'r Unol Daleithiau[56]<br>– Mae fideo ymgyrch HSE Iwerddon ***"Every vaccine is a little victory***" yn dangos delweddau calonogol o blant bodlon[57] |
| **Darparu gwybodaeth am broses cymeradwyo'r brechlyn**.[58]<br><br>Mae diogelwch yn bryder mawr yn enwedig pan gaiff brechlynnau eu datblygu'n gyflym.[59] | – Yn yr Unol Daleithiau, datblygodd Sefydliad de Beaumont ganllaw ar gyfer **cyfathrebu am gymeradwyaeth gan Y Weinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau i fagu hyder mewn brechlynnau COVID-19**. Roedden nhw'n ei chael hi'n ddefnyddiol egluro nad oedd y llywodraeth yn torri corneli[58]<br>– Datblygodd Llywodraeth Yr Alban ac Iechyd Cyhoeddus Yr Alban fideo esboniadol **am y broses o ddatblygu'r brechlyn COVID-19 a'i ddiogelwch**[60] |
| **Meddwl yn feirniadol ac arfarnu ffynonellau gwybodaeth am frechlynnau; "chwalu ymlaen llaw"** | – Nododd chwe hap-dreial â rheolydd ac ymgyrch hysbysebion YouTube y gall fideos doniol o dechnegau ymdrin â chamwybodaeth gyffredin wella [61] gallu'r gwylwyr i adnabod technegau ystrywgar; nodi ffynonellau y gellir ymddiried ynddynt; a dylanwadu ar benderfyniadau i rannu cynnwys[62] |
| **Cyfeirio at adnoddau dilys** yr ymchwilir iddynt ac sy'n cael eu hysgrifennu a'u cymeradwyo gan arbenigwyr pwnc ac yn seiliedig ar wyddoniaeth a adolygwyd gan gymheiriaid[63] | – Mae'r WHO yn darparu'r **Rhwyd Diogelwch Brechlynnau**, porth sy'n rhestru ffynonellau ag enw da er mwyn i'r cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol nodi'n hawdd ffynonellau sydd wedi'u dilysu o wybodaeth ddibynadwy ar ddiogelwch brechlynnau ar-lein[64] |

[49] https://health.ec.europa.eu/system/files/2022-11/vaccination_vaccine-preventable-diseases_factsheet_en.pdf
[50] Hard-to-reach areas and long commutes? Challenge accepted – GPEI (polioeradication.org)
[51] A school-based human papillomavirus vaccination program in barretos, Brazil: final results of a demonstrative study - PubMed (nih.gov)
[52] 1108_MER_flu_behaviour.pdf (europa.eu)
[53] https://www.comminit.com/global/content/its-you-covid-19-vaccine-education-campaign
[54] https://www.frameworksinstitute.org/wp-content/uploads/2022/09/WellcomeTrust-uk-vaccine-project-Strategic-brief.pdf
[55] https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0264410X20313219?via%3Dihub
[56] https://www.frontiersin.org/articles/10.3389/fpos.2021.630133/full
[57] https://www.youtube.com/watch?v=SZ2zbISsY-0
[58] FDA-APPROVAL_8.24.3.pdf (debeaumont.org)
[59] Resiliency, Communication, and Partnerships: Insights From the de Beaumont Foundation | ASTHO
[60] COVID-19 Vaccine - NHS Scotland Explainer Video - Safety - YouTube
[61] https://inoculation.science/inoculation-videos/
[62] https://www.science.org/doi/10.1126/sciadv.abo6254
[63] Finding Credible Vaccine Information | CDC
[64] Vaccine Safety Net

| | |
|---|---|
| **Ble y dylid cyfleu'r neges?** | |
| Rhaid i'r cyfathrebiadau **gyd-fynd â pholisïau a mesurau iechyd y cyhoedd ychwanegol**.[65] | – Gweithiodd Adran Iechyd[66] Talaith Washington gyda'r gymuned Latinx gan deilwra eu hymgyrch COVID-19 drwy drefnu **digwyddiadau brechu cyhoeddus a symbylwyd gan y gymuned** gyda sefydliadau lleol a fu'n dod o hyd i'r lleoliad, darparu addysg ac allgymorth, a mynd yn "llais y digwyddiadau" |
| **Cynyddu presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol**. Gall arbenigwyr iechyd cyhoeddus a meddygol rannu gwybodaeth dda lle mae cynulleidfaoedd yn dod o hyd i gamwybodaeth.[67] | – Yn Yr Almaen, mae'r **Weinyddiaeth Iechyd yn trydar gan ddefnyddio'r hashnod #FokusImpfen** [68] *("canolbwyntio ar frechu"*) i:<br>✓ Ffurfio **brand y gellir ei adnabod**<br>✓ Nodi bod yr wybodaeth yn **uchel ei pharch**<br>– Cyfathrebu'n **rheolaidd** |
| **Strategaethau cyfathrebu amlfodd:** arallgyfeirio allgymorth drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol a digwyddiadau wyneb yn wyneb i gyrraedd pobl sydd heb fynediad i'r we.[67] | – Creodd a phostiodd Llywodraeth Yr Alban **gynnwys COVID-19 a ffliw a arweiniwyd gan glinigwyr ar Facebook, Twitter ac Instagram ar gyfer pobl feichiog**[69]<br><br>– Yn yr Unol Daleithiau, arweiniodd strategaethau lluosog fu'n targedu **rhieni bechgyn 9–11 oed a darparwyr gofal iechyd** at gynnydd 34% yn nifer y bobl fu'n manteisio ar y brechlyn HPV o'i gymharu ag astudiaethau rheolydd:[70]<br>✓ **Hysbysebion radio**<br>✓ **Posteri a thaflenni (yn Saesneg a Sbaeneg)** gyda'r neges: "*Bydd un o bob dau yn cael HPV, a all arwain at ddafadennau gwenerol a chanser*"<br>✓ **Hyfforddiant ar-lein ar gyfer darparwyr gofal iechyd** |
| **Fideos/ffilm addysgol** | – Mewn astudiaethau, mae **fideos addysgol byr** wedi:<br>✓ Gwella gwybodaeth am frechiadau polio yn yr Unol Daleithiau[71]<br>✓ Cynyddu penderfyniadau gwybodus a lleihau gwrthdaro penderfyniadol ynghylch brechu HPV ymysg rhieni Americanaidd o dras Coreaidd a Latino[72]<br>✓ Cynyddu brechiadau ffliw ymysg cyfranogwyr oedrannus yn Tsieina[73] |
| **Pwy ddylai reoli'r broses gyfathrebu?** | |
| Cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd<br><br>Mae ymchwil o'r DU yn argymell adeiladu ar yr ymddiriedaeth hon, **heb ddiystyru dylanwad ffrindiau a theulu**.[74] | – Yn aml, gweithwyr iechyd proffesiynol yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf dibynadwy am atal/brechiadau ffliw[75]<br>– Yn Seland Newydd, fe wnaeth **ymgyrch addysgol mewn ysbytai** gynyddu brechiadau ffliw yn ystod beichiogrwydd, drwy:[76]<br>✓ Gyflwyniadau mewn darlithoedd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol<br>✓ Presenoldeb staff mewn cyfarfodydd clinigol cyn-enedigol<br>✓ Llyfrynnau gwybodaeth i gleifion ar fanteision, effeithiolrwydd, a diogelwch (Saesneg yn unig; cymorth gyda dehongli a staff cyswllt diwylliannol gan unedau amlddiwylliannol ysbytai)<br>– Erthygl mewn cylchlythyr e-bost i feddygon teulu |
| **Datblygu sylfaen gref o bartneriaethau cyhoeddus/preifat aml-sector** (adrannau iechyd, sefydliadau academaidd, sefydliadau yn y gymuned a darparwyr gofal clinigol).[77] | – Yn Latfia, cydweithiodd y **Weinyddiaeth Iechyd gyda sefydliad cymdeithas sifil LHDT uchel ei barch**[78] i gynnig llwybr llyfn a di-farn i frechiadau mpox<br><br>– Mae'r **Glymblaid dros Frechu'n annog cydweithio rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a'r cyfryngau, cymdeithas sifil ac eraill**[79] |
| **Datblygu negeseuon cyson ar draws gwahanol asiantaethau** i leihau dryswch a chynyddu ymddiriedaeth.[80] | **Llwyddiant cyflwyno'r brechlyn HPV** (94% o ferched 12-14 oed yn 2022) yn Uzbekistan[81] o ganlyniad, yn rhannol, i'r **cynllun cyfathrebu cenedlaethol.**<br>– Darparodd WHO: |

[65] *1108_MER_flu_behaviour.pdf (europa.eu)*
[66] *A Conversation on Vaccine Confidence with the Washington State Department of Health | ASTHO*
[67] *Community Partners Offer Key Insights to Health Departments for Increasing Vaccine Confidence (astho.org)*
[68] *https://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0004/329647/Vaccines-and-trust.PDF*
[69] *Scottish Government Marketing News (prgloo.com)*
[70] *Intervention effects from a social marketing campaign to promote HPV vaccination in preteen boys - PubMed (nih.gov)*
[71] *Videotape Increases Parent Knowledge About Poliovirus Vaccines and Choices of Polio Vaccination Schedules (silverchair.com) Videotape Increases Parent Knowledge About Poliovirus Vaccines and Choices of Polio Vaccination Schedules | Pediatrics | American Academy of Pediatrics (aap.org)*
[72] *Design and efficacy of a multilingual, multicultural HPV vaccine education intervention - PubMed (nih.gov)*
[73] *Impact of video-led educational intervention on uptake of influenza vaccine among the elderly in western China: a community-based randomized controlled trial | BMC Public Health | Full Text (biomedcentral.com)*
[74] *https://www.frameworksinstitute.org/wp-content/uploads/2022/09/WellcomeTrust-uk-vaccine-project-Strategic-brief.pdf*
[75] *https://www.ecdc.europa.eu/sites/default/files/media/en/publications/Publications/1108_MER_flu_behaviour.pdf*
[76] *Improving influenza vaccination coverage in pregnancy in Melbourne 2010–2011 - McCarthy - 2012 - Australian and New Zealand Journal of Obstetrics and Gynaecology - Wiley Online Library*
[77] *A Conversation on Vaccine Confidence with the Washington State Department of Health | ASTHO*
[78] *https://www.who.int/europe/news/item/27-12-2022-listen--listen--listen----how-cooperation-and-communication-with-at-risk-groups-are-increasing-access-to-mpox-vaccination-in-latvia*
[79] *https://eurohealthnet.eu/publication/improving-vaccine-equity-addressing-barriers-and-building-capacity-to-improve-vaccine-uptake/*
[80] *Community Partners Offer Key Insights to Health Departments for Increasing Vaccine Confidence (astho.org)*
[81] *Uzbekistan achieves high HPV vaccination coverage against cervical cancer (who.int)*

| | |
|---|---|
| | ✓ **Hyfforddiant i newyddiadurwyr (teledu, radio, print)** cyn cyflwyno'r brechlyn<br>✓ Rhestr o arbenigwyr i gyfweld â nhw<br>– **Hyfforddwyd arweinwyr allweddol ag awdurdod** (arweinwyr crefyddol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, athrawon, gweinidogion) - mae ymchwil yn dangos yr ymddiriedir yn fwy yn y rhain nag yn y cyfryngau<br>– **Canolbwyntiodd negeseuon ar fywydau iach** yn hytrach na iechyd rhywiol<br>– **Monitrwyd y niferoedd a fanteisiodd ar y brechlyn.** Pan fu gwymp yn y niferoedd yn manteisio y brechlyn mewn un ysgol (Tashkent), gweithredwyd cynllun cyfathrebu argyfwng trwy gyfarfod gydag athrawon, rhieni a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Ymdriniodd gweithwyr proffesiynol â chamwybodaeth yn y cyfryngau cymdeithasol. |
| **Cywain tystiolaeth gadarnhaol gan y rhai sydd wedi derbyn y brechlyn;** ymgysylltu â chynulleidfaoedd drwy **rannu profiadau o lygad y ffynnon** [74, 80]<br><br>Annog **ffigurau ag awdurdod** i dderbyn eu brechlyn yn gyhoeddus (e.e., yn ystod digwyddiadau / postio fideos ar-lein).[80] | – Yn Israel, roedd y niferoedd fu'n manteisio ar y brechlyn yn isel yn dilyn atal ymgyrch frechu'r ffliw dros dro. Er mwyn cynyddu ymddiriedaeth, derbyniodd y **Gweinidog Iechyd** (dyn 80 oed) **ei frechlyn a chafodd ei gyfweld ar deledu byw**[82] |

[82] https://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0004/329647/Vaccines-and-trust.PDF

## Gwella ymgyrhaeddiad yr ymgyrch

***Tabl 2. Strategaethau a ddefnyddir i wella tegwch iechyd drwy dargedu poblogaethau sy'n agored i niwed neu dan anfantais***

| Poblogaeth | Sail Resymegol | Strategaethau a ddefnyddir |
|---|---|---|
| **Lleiafrifoedd ethnig, crefydd a hil** | – Ceir anghyfartaledd hil ac ethnig ymhlith poblogaethau Duon, Ysbaenig a Brodorol o ran brechiadau ffliw. Ysgogyddion cymhleth – gan gynnwys camwybodaeth, diffyg ffydd yn yr awdurdod iechyd cyhoeddus a rhwystrau systematig i ofal[83]<br>– Ceir rhesymau crefyddol sy'n sail i betruster brechlyn gan gynnwys argyhoeddiadau crefyddol; cynhwysion brechlynnau; a'r gred fod brechlynnau'n arwain at ymddygiadau dieisiau[84] | – Yn Lloegr, arweiniodd y defnydd o'r ymagwedd **TIP** at gynnydd mewn brechiadau ymhlith y gymuned Iddewig Uniongred Charedi drwy:[85]<br>✓ **Gefnogaeth gan arweinwyr crefyddol** i hybu brechu<br>– Defnydd o **sianeli cyfathrebu cymunedol** (e.e., cylchlythyrau lleol) i gyrraedd y rhai heb fawr ddim mynediad i'r cyfryngau cenedlaethol na'r rhyngrwyd) |
| **Llythrennedd isel a rhwystrau iaith** | – Yn gysylltiedig â defnydd gostyngol o ofal ataliol[86]<br>– Yn lleihau mynediad, dealltwriaeth a defnydd effeithiol o wybodaeth gysylltiedig ag iechyd [86]<br>– Mae ymgyrchoedd cyfathrebu'n aml yn methu ag ystyried lefelau llythrennedd [86] | – Cydnabod bod **llythrennedd iechyd yn benodol i'r cynnwys ac i'r cyd-destun** - mae unigolion o wahanol grwpiau poblogaeth neu gyda chyflyrau gwahanol yn datblygu sgiliau llythrennedd iechyd gwahanol [86]<br>– Darparu **deunyddiau hygyrch mewn nifer o ieithoedd**[87]<br>– Datblygodd Llywodraeth Yr Alban **fideos esboniadol ar gyfer y Brechlynnau Ffliw a COVID-19 mewn nifer o ieithoedd gan gynnwys iaith arwyddion**[88] |
| **Pobl sy'n feichiog** | – Gallai pobl feichiog fod â phryderon ychwanegol am risgiau i fabanod yn y groth[89] | – Datblygodd Llywodraeth Yr Alban ac Iechyd Cyhoeddus Yr Alban **fideo gwybodaeth** am y brechlyn COVID-19 yn targedu pobl feichiog a'r rhai sy'n bwydo ar y fron[90] |
| **Pobl anabl** | – Gall pobl anabl fod yn betrusgar am frechlynnau oherwydd diffyg hygyrchedd, trawma blaenorol, a chydadweithiau anhysbys â chyflyrau iechyd[91] | – Mae **hygyrchedd gwefannau** yn hanfodol i sicrhau bod gan bobl anabl fynediad teg at wybodaeth ddigidol[92]<br>– Mae'r Gymdeithas Swyddogion Iechyd Taleithiol a Thiriogaethol (ASTHO) yn yr Unol Daleithiau **yn cynnwys profiadau pobl anabl mewn ymgyrchoedd** (e.e., pam y dewisodd pobl anabl a'u rhoddwyr gofal i dderbyn y brechlyn COVID-19)[93] |
| **Ceiswyr lloches a ffoaduriaid** | – Mae rhwystrau o ran iaith yn cyfyngu ar fynediad at wybodaeth ddibynadwy[94]<br>– Yn aml nid yw mudwyr yn cael eu cynnwys yn benodol mewn rhaglenni brechu cenedlaethol[95]<br>– Rhwystrau oherwydd diffyg ffydd mewn awdurdod[95] | – Darparodd **canolfannau Oasis Menywod y Cenhedloedd Unedig mewn gwersylloedd ffoaduriaid yn Syria ofodau rhithwir diogel** i rannu gwybodaeth o ffynonellau dibynadwy (e.e., ymgyrch i ledaenu ymwybyddiaeth am COVID-19[96]) |
| **Plant a phobl ifanc** | – Efallai y bydd gan rieni bryderon am anghenraid, effeithiolrwydd a diogelwch brechlynnau[97] | – Datblygodd Sefydliad de Beaumont yn yr Unol Daleithiau **ddeunyddiau ar sut i gyfathrebu â rhieni** am blant, ysgolion a brechlynnau[98] |

[83] Public Health and Healthcare Partner to Promote Influenza Vaccination | ASTHO
[84] Frontiers | Vaccine Hesitancy Among Religious Groups: Reasons Underlying This Phenomenon and Communication Strategies to Rebuild Trust (frontiersin.org)
[86] 1108_MER_flu_behaviour.pdf (europa.eu)
[87] A Conversation on Vaccine Confidence with the Washington State Department of Health | ASTHO
[88] View the full-length Flu Vaccine and COVID-19 Vaccine Explainer Video video via YouTube here
[89] A review of research into vaccine uptake in the UK | Local Government Association
[90] COVID-19 Vaccine - NHS Scotland Explainer Video - Pregnancy and Breastfeeding - YouTube
[91] Reducing Vaccine Hesitancy for People Living With Disabilities (astho.org)
[92] Website Accessibility: Enhancing Access to COVID-19 Vaccine Registration and Beyond (astho.org)
[93] Why I Got the Vaccine: A PSA Series on Vaccination for People Living with Disabilities and Their Caregivers | ASTHO
[94] The New Humanitarian | On COVID vaccinations for refugees, will the world live up to its promises?
[95] https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/344793/WHO-2019-nCoV-immunization-refugees-and-migrants-2021.1-eng.pdf
[96] Protecting refugees from COVID-19 misinformation | United Nations
[97] Children | Free Full-Text | Vaccine Hesitancy in Children—A Call for Action (mdpi.com)
[98] parents-and-school.pdf (debeaumont.org)


## Ymgyrchoedd cyfathrebu sy'n benodol i frechlynnau

## Feirws papiloma dynol (HPV)

Mae 60% o Aelod-wladwriaethau WHO yn cynnwys brechu HPV yn eu hamserlen imiwneiddio genedlaethol reolaidd

- Mae amrywiad rhanbarthol sylweddol o ran darpariaeth (Ffigur 3)
- Dim ond 13% o ferched (hyd at 15 oed) ar draws y byd a dderbyniodd y ddau ddos a argymhellir yn 2021[99]
- Mae 125 o wledydd yn cynnig y brechlyn HPV i ferched; Mae 47 hefyd yn brechu bechgyn o fewn y rhaglen imiwneiddio genedlaethol[100]
- Mae Cymru'n cynnig brechu HPV i bobl ifanc o bob rhyw[101]

***Ffigur 3. Darpariaeth brechlyn HPV fesul blwyddyn a rhanbarth o'r byd***
*Ffynhonnell: WHO Immunization Data portal, 2022[102] (Ffigur heb fod ar gael yn Gymraeg)*




### Ymhlith y rhwystrau i frechu HPV mae:[103,104,105,106,107]

- Canfyddiad y bydd y brechlyn HPV yn annog gweithgarwch rhywiol
- Anghydbwysedd mewn gwybodaeth rhwng rhieni a phobl ifanc
- Risg canfyddedig isel o HPV a buddion y brechlyn gan gynnwys cysylltiadau â chanser serfigol a chyflyrau eraill, yn enwedig ymhlith rhieni bechgyn
- Gwybodaeth gyfyngedig ymysg gweithwyr gofal iechyd ynghylch clefydau sy'n gysylltiedig â HPV, yn enwedig mewn dynion

[99] who-hpv-vaccine-global-market-study-april-2022.pdf
[100] https://www.who.int/publications/i/item/who-wer9750-645-672
[101] https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/brechu/hpv/
[102] https://immunizationdata.who.int/pages/coverage/hpv.html?GROUP=WHO_REGIONS&ANTIGEN=15HPVC_F&YEAR=&CODE=
[103] Fracaso_HPV (1).pdf
[104] ASPECTOS SOCIALES QUE HAN AFECTADO LA ACEPTACIÓN DE LA VACUNACIÓN CONTRA EL VIRUS DEL PAPILOMA HUMANO EN COLOMBIA. UNA REVISIÓN SISTEMÁTICA (scielo.org.co)
[105] Barriers to human papillomavirus vaccination among US adolescents: a systematic review of the literature - PubMed (nih.gov)
[106] Erthygl lawn: Facilitators and Barriers of HPV Vaccine Acceptance, Initiation, and Completion among LGBTQ Community in the U.S.: A Systematic Review (tandfonline.com)
[107] Young Danish HPV vaccinated women's knowledge, barriers and facilitators towards cervical cancer screening: A qualitative study - PMC (nih.gov)

| **Astudiaeth achos: Denmarc**[108,109,110] |
| --- |
| Gostyngodd y niferoedd fu'n derbyn y brechlyn HPV o 90% yn 2014 i 40% yn 2016 ymhlith merched 12 oed oherwydd pryderon am ddiogelwch brechlynnau ac effeithiau andwyol.<br><br>Tarddodd y pryderon o sylw negyddol helaeth yn y cyfryngau:<br>– Bu 1329 o erthyglau newyddion negyddol yn 2015, o'i gymharu â 140 yn 2014<br>– Arddangosodd rhaglen ddogfen ("Y Merched a Frechwyd – Sâl ac Wedi'u Gadael<br>    ✓ ferched a briodolodd eu salwch (yn anghywir) i'r brechiad HPV<br>    ✓ Amharodrwydd ymddangosiadol awdurdodau iechyd i gydnabod effeithiau andwyol<br><br>Yn 2017, lansiodd Cymdeithas Ganser Denmarc, Cymdeithas Feddygol Denmarc a phartneriaid eraill yr ymgyrch "**Atal HPV, Atal Canser Serfigol"**.<br><br>Nododd dadansoddiad o'r cyfryngau, grwpiau ffocws, cyfweliadau, ac arolygon:<br>– **Ddiffyg ymwybyddiaeth o:**<br>    ✓ **Fanteision y brechlyn HPV**<br>    ✓ Pryd y dylid ei roi **(cyn cael rhyw am y tro cyntaf)**<br>– **Mamau yw'r rhai sy'n gwneud y penderfyniad** ynghylch rhoi brechiad HPV i'w merched<br>– Gwahaniaeth rhwng:<br>    ✓ Rhieni sy'n annhebygol o newid eu meddyliau<br>    ✓ Rhieni petrusgar a allai fod yn agored i'r ymgyrch<br><br>Roedd yr ymgyrch yn targedu mamau merched 10-14 oed ag amheuon am y brechiad HPV er mwyn:<br>– **Ail-ennyn hyder yn y brechlyn**<br>– **Gwella llythrennedd iechyd** ar HPV, canser serfigol, y brechlyn HPV, a bod y risg cymharol o ganser serfigol yn drech o lawer nag effeithiau andwyol y brechlyn<br><br>**Roedd negeseuon yr ymgyrch yn seiliedig ar dystiolaeth** ac yn cynnwys:<br>– *"Bydd o leiaf 80% o'r holl bobl sy'n weithgar yn rhywiol yn cael eu heintio â HPV un neu fwy o weithiau yn ystod eu hoes"*<br>– *"Mae heintiau HPV yn fwyaf cyffredin ymhlith pobl ifanc. Mae tua phedwar o bob deg yn Nenmarc dan 30 oed wedi'u heintio â HPV ar hyn o bryd"*<br>– *"Gall brechu HPV atal 70% o'r holl achosion o ganser serfigol"*<br><br>**Ymhlith cynnwys yr ymgyrch oedd ffeithiau meddygol a straeon personol** am fenywod yr oeddent wedi profi newid cyn-ganseraidd / canser serfigol.<br><br>**Ymhlith sianeli'r ymgyrch** oedd:<br>– **Cyfryngau traddodiadol** (e.e., erthyglau a gyhoeddwyd mewn papurau newydd a chylchgronau ffordd o fyw)<br>– **Llwyfannau digidol** (e.e., gwefan yr ymgyrch a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ymgyrch)<br>    ✓ **Presenoldeb digidol**: rhannwyd pryderon rhieni ar-lein (e.e., Facebook) gan alluogi **partneriaid yr ymgyrch i ymdrin â phryderon**<br>    ✓ Roedd y wefan yn cynnwys "**pyramid tystiolaeth**" i **helpu pobl i ddeall sut mae astudiaethau'n cael eu gwerthuso gan gynnwys ansawdd a dibynadwyedd**.<br>    ✓ **Hashnodau Twitter** (e.e., #stophpv)<br>– **Cyfarfodydd cymunedol dan arweiniad gweithwyr iechyd proffesiynol**<br>– Cyfathrebu rhwng rhieni: "*Mae fy merch wedi'i brechu yn erbyn HPV oherwydd*…" |

[108] Denmark campaign rebuilds confidence in HPV vaccination (who.int)
[109] Danish health literacy campaign restores confidence in HPV vaccination (who.int)
[110] https://www.clinicalkey.com/#!/content/playContent/1-s2.0-S0264410X19316615?returnurl=https:%2F%2Flinkinghub.elsevier.com%2Fretrieve%2Fpii%2FS0264410X19316615%3Fshowall%3Dtrue&referrer=https:%2F%2Fpubmed.ncbi.nlm.nih.gov%2F

– **Deunyddiau printiedig** a ddosbarthwyd mewn lleoliadau gofal iechyd, ysgolion, etc., gyda gwybodaeth a dolenni i wefan yr ymgyrch
– **Deunyddiau i weithwyr iechyd**

**Dangosodd gwerthusiad ar ôl naw mis ddychweliad i lefelau manteisio ar y brechlyn gwaelodlin (2009-2013)** (dechreuodd 31,000 o ferched yr amserlen frechu o'i gymharu â 15,000 yn 2016).

## Y Frech Goch, Clwy'r Pennau, Rwbela (MMR)

Mae darpariaeth brechlyn MMR is-optimaidd yn gysylltiedig ag achosion o'r frech goch[111]

– Mae cysylltiadau canfyddedig (sydd wedi'u chwalu) rhwng y brechlyn MMR ac awtistiaeth yn parhau i fod yn rhwystr mawr i'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn[112]

**Astudiaeth achos: Cymuned Somali, Stockholm, Sweden**[113,114,115,116]

Cyn gweithredu **TIP** yn 2013, adroddodd clinigau iechyd plant mewn dwy ardal yn Stockholm am lefelau manteisio isel ar y brechlyn MMR (tua 70%).[117]

**Cam 1. Ymchwil ffurfiannol** i nodi bylchau mewn gwybodaeth, cwestiynau, a phryderon a nodwyd:
– **Mae pryderon rhieni am awtistiaeth** yn golygu bod y brechlyn MMR yn cael ei wrthod/oedi, yn enwedig i feibion
– **Mae tadau'n chwarae rôl amlwg wrth wneud penderfyniadau am frechlynnau**
– **Ffafrir dulliau llafar o gyfathrebu** (yn enwedig rhwng mamau)

**Cam 2. Cynllunio a gweithredu**; ffocws ar:
– **Addysg brechlyn a chyfathrebu darbwyllol**
– **Cyfres o seminarau ar sgiliau cyfathrebu** ar gyfer nyrsys clinigau: anelu at hwyluso deialog gyda rhieni
– **Cyd-gynhyrchu:** lledaenwyd seminarau a gwybodaeth gysylltiedig gan ddefnyddio rhwydweithiau cymunedol presennol

**Ymhlith yr ymyriadau roedd:**
– **Seminarau cyhoeddus seiliedig ar ddeialog** a ddarparwyd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol (â phrofiad o weithio gyda chymunedau agored i niwed a mudol; ac wedi'u hyfforddi mewn cymhwysedd diwylliannol):
  ✓ Sut mae'r brechlyn yn gweithio, ffactorau sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant ac awtistiaeth
  ✓ Seminarau a gynhelir mewn **Somaleg a Swedeg gyda chyfieithu ar y pryd**
  ✓ Postiwyd gwahoddiad i **seminarau am ddim** mewn arenâu lleol
  ✓ Rhieni wedi'u gwahodd gan nyrsys mewn clinigau; cyfryngau cymdeithasol; neges destun
– **Ffilm fer naratif (14 munud) gyda modelau rôl Somali, fu'n cynnwys:**
  ✓ **Rhieni'n rhannu straeon personol** am benderfyniadau brechu
  ✓ **Gweithwyr iechyd proffesiynol yn rhannu gwybodaeth am frechu ar sail tystiolaeth**
  ✓ **Arweinydd crefyddol** yn cefnogi atal er gwella iechyd

  Roedd y ffilm yn **Somaleg gyda chyfieithiad Swedeg** ac fe'i cyflwynwyd i rieni mewn gwahanol leoliadau, fe'i **darparwyd ar YouTube** ac yn **roedd yn rhan o ddigwyddiadau ffilm i hwyluso deialog o amgylch y cynnwys**

[111] https://www.euro.who.int/__data/assets/pdf_file/0004/329647/Vaccines-and-trust.PDF
[112] https://www.statista.com/statistics/665592/reasons-families-refused-vaccinations-health-care-professionals-us/
[113] https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2666535222000817#bib37
[114] https://gh.bmj.com/content/7/7/e009250
[115] https://www.vhpb.org/files/html/Meetings_and_publications/Presentations/LJUBL512.pdf
[116] https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/17579139221093238
[117] Folkhälsomyndigheten. Barriers-Motivating-Factors-Mmr-Vaccination-Communities-Low-Coverage-Sweden. Stockholm: The Public Health Agency;2015 978-91-7603-451-4.

- **Cartŵn animeiddiedig:** gofynnodd rhieni am hyn, roedd yn 7 munud ei hyd ac wedi'i ddatblygu mewn Swedeg (gydag is-deitlau Swedeg fel ei fod yn hygyrch i gynulleidfa ehangach), gan drafod sut mae brechiadau'n gweithio a'r system imiwn

- **Cardiau gwybodaeth yn Somaleg a Swedeg gyda gwybodaeth am:**
  - ✓ Bwysigrwydd dilyn yr amserlen frechu mewn plentyndod
  - ✓ Rhaglen frechu
  - ✓ Rôl staff clinigau iechyd plant
- **Hyfforddiant rhwng cymheiriaid:** Hyfforddwyd 32 **o famau fu'n cymryd rhan yn weithredol yn y gymuned** ar addysg brechlynnau, gyda chyfarfodydd cymheiriaid dilynol a defnydd o WhatsApp i gynnal ymgysylltiad

**Canfyddiadau:**
- Roedd canolfannau iechyd y tu allan i ardal yr ymyriad hefyd yn defnyddio'r ffilmiau a'r cardiau gwybodaeth
- Roedd ymgysylltu â'r gymuned, cynnwys arbenigwyr sy'n siarad Somaleg, hyfforddwyr, rhwydweithiau cymheiriaid a chymunedol yn hwyluso deialog, dealltwriaeth, a rhannu gwybodaeth
- **Mae arbenigedd rhyngddisgyblaethol yn hanfodol**

## Mpox (mwncipox)

Fel arfer, mae Mpox yn epidemig rhanbarthol amlwg yng ngwledydd Gorllewin a Chanolbarth Affrica, gydag allforiad achlysurol i ranbarthau eraill[118,119]
- Datganwyd yr achosion rhyngwladol o achosion mpox yn Ewrop yn 2022 yn Argyfwng Iechyd Cyhoeddus o Bryder Rhyngwladol [118]
- Mae'r achosion yn dangos **tuedd epidemiolegol newidiol**: nid oedd gan yr achosion hanes o deithio i ardaloedd endemig; roedd cyfran uchel o'r achosion yn ddynion hoyw a deurywiol sy'n cael rhyw gyda dynion (MSM)[120, 121]
  - ✓ Gall grŵp craidd o bobl â rhwydwaith rhywiol dwys o fewn y gymuned egluro'r risg uwch o drosglwyddo mpox
  - ✓ Mae mwy o achosion wedi arwain at **wahaniaethu a stigma**. Gall hyn achosi i unigolion symptomatig osgoi sylw meddygol

### Lleihau stigma

Mae'n rhaid i strategaethau cyfathrebu ddarparu'r **ffeithiau heb briodoli bai**[122]
- Dylid **cyfaddef ansicrwydd** gyda'r negeseuon (e.e., mae grŵp penodol mewn perygl nawr, ond nid yw'r feirws yn gwahaniaethu, a gallai unrhyw un gael ei heintio)
- Mae hyn **yn atal synnwyr diogelwch ffug** ymysg y cyhoedd ac yn **lleihau dryswch** pan gaiff gwybodaeth ei diweddaru
- Dylai negeseuon gael eu **cymeradwyo a'u hadleisio gan grwpiau y mae'r boblogaeth darged yn ymddiried ynddynt** (e.e., HIV Scotland,[123] Love Tank[124])

Gall **mewnwelediadau ymddygiadol a diwylliannol** gefnogi strategaethau rheoli a gwaredu mpox drwy bolisïau, ymyriadau a chyfathrebu wedi'u teilwra yn dilyn **ymchwil**

118 https://www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/monkeypox
119 https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/monkeypox
120 https://idpjournal.biomedcentral.com/articles/10.1186/s40249-022-01007-6
121 https://www.science.org/content/article/why-the-monkeypox-outbreak-is-mostly-affecting-men-who-have-sex-with-men
122 https://www.thelancet.com/journals/laninf/article/PIIS1473-3099(22)00456-X/fulltext
123 https://www.hiv.scot/sh/monkeypox
124 https://www.gov.uk/government/news/innovative-projects-to-trial-new-ways-to-improve-sexual-health-and-hiv-outcomes

**ffurfiannol** i ddeall **cyd-destun, canfyddiadau ac ymddygiadau** poblogaethau blaenoriaeth, gan gynnwys:[125]

1. **Ymchwil wedi'i thargedu** i ymdrin â bylchau mewn gwybodaeth
2. Nodi ac asesu'r **data sydd ar gael**
3. **Cyfathrebu effeithiol**
   - ✓ Lleoli **sianeli a llefarwyr cymunedol uchel eu parch** drwy ymgysylltu cymunedol
   - ✓ Defnyddio gwyddor ymddygiadol a mewnwelediadau cymunedol i **gyd-gynhyrchu negeseuon** gyda phoblogaethau targed
   - ✓ Cefnogi rhannu negeseuon a ddatblygwyd gan MSM
4. **Datblygu a gweithredu** mentrau
5. **Monitro a gwerthuso**

**Astudiaeth achos: CDC, Yr Unol Daleithiau**[126]

Mae'r CDC yn defnyddio eu **lens tegwch iechyd yr Egwyddorion Tegwch Iechyd Arweiniol ar gyfer Cyfathrebu Cynhwysol** wrth gynllunio cyfathrebu, datblygu a lledaenu er mwyn bod yn **gynhwysol, osgoi rhagfarn a stigma, a chyrraedd cynulleidfaoedd arfaethedig yn effeithiol**

**Negeseuon ar gyfer cynulleidfaoedd cyffredinol**:

- **Gwybodaeth am mpox:** mecanweithiau lledaenu (gan gynnwys sut na chaiff ei ledaenu); atal; rheoli (e.e., Digital Resources | Mpox | Poxvirus | CDC)
- **Dylai deunyddiau gweledol gynnwys delweddau o amrywiaeth o ddifrifoldeb** (e.e., brech); ac **ystod o gefndiroedd demograffig gan gynnwys grŵp hil/ethnig**

**Negeseuon i Bobl Hoyw, Deurywiol, ac MSM eraill**:

- Dylai negeseuon fod yn **glir, yn anfeirniadol, osgoi stigmateiddio unrhyw arfer rhywiol neu gymuned, a sicrhau nad yw cynnwys yn homo-/bi-/traws-ffobig neu heterorywiaethol**
- **Dylid defnyddio sianeli i gyrraedd grwpiau penodol**, e.e., gwefannau neu apiau penodol
- **Defnyddio straeon personol am "bobl fel fi"** fel bod y negeseuon yn taro deuddeg gyda chynulleidfaoedd arfaethedig
- **Ystyried cydweithio â rhanddeiliaid/trefnwyr digwyddiadau lleol** er mwyn lledaenu gwybodaeth, e.e., llythyron Important Message to All Visitors Regarding the Monkeypox Virus (cdc.gov)

## COVID-19 / SARS-CoV-2

Roedd **datblygiad y brechlyn COVID-19 yn gyflym**: ar ôl cyhoeddi'r dilyniant SARS-CoV-2, rhoddwyd awdurdodiad defnydd brys 11 mis yn ddiweddarach[127]

- Gweinyddwyd **dros 13 biliwn** o ddosau brechlyn COVID-19 yn fyd-eang (31 Ionawr 2023)[128]
- Argymhellir **brechiadau atgyfnerthu**[129]
- Mae **cyfraddau brechu'n amrywio** o fewn poblogaethau: yn y DU, roedd cyfraddau oedolion heb eu brechu'n uwch, er enghraifft, ymhlith grwpiau ethnig Du Caribïaidd, Du Affricanaidd a Gwyn Arall; a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig[130]

[125] https://www.who.int/europe/publications/i/item/WHO-EURO-2022-6784-46550-67554
[126] https://www.cdc.gov/healthcommunication/Health_Equity_Lens.html
[127] Fast-forward: Will the speed of COVID-19 vaccine development reset industry norms? | McKinsey
[128] WHO Coronavirus (COVID-19) Dashboard | WHO Coronavirus (COVID-19) Dashboard With Vaccination Data
[129] effective-ways-to-increase-vaccination-rates.pdf (wellcome.org)
[130] Coronavirus (COVID-19) latest insights - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

## Rhwystrau i frechu

Mae **amharodrwydd neu ansicrwydd** ynghylch derbyn y brechlynnau COVID-19 yn cynnwys:[131,132]

– **Pryderon ynghylch diogelwch y brechlyn** (e.e., cyflymder datblygu)
– **Canfyddiad isel o risg COVID-19**
– **Camwybodaeth** ar lwyfannau cyhoeddus
– **Diffyg ymddiriedaeth** oherwydd anghydraddoldebau gofal iechyd a hiliaeth strwythurol

**Mae betruster yn gyffredin ymhlith pobl feichiog** oherwydd:[133,134,135]

– Arweiniad anghyson
– Heb gael eu cynnwys mewn treialon clinigol
– Ofn am niwed posib i'r rhiant neu'r baban

## Ymgyrchoedd cyfathrebu addysgol

| **Astudiaethau achos: Ymgyrchoedd cyfathrebu i hyrwyddo'r brechiad COVID-19** | |
|---|---|
| **Israel**[136] | Roedd **fideo addysgol** yn cynnwys esboniad o ddatblygiad y brechlyn, effeithiau andwyol posib, ac argymhellion brechu |
| **Yr Eidal**[137] | Datblygodd Gweinyddiaeth Iechyd Yr Eidal, y Sefydliad Iechyd Cenedlaethol, a phartneriaid **gyfres o gartwnau, "*Leo & Giulia*", i addysgu plant 5–11 oed** ar COVID-19. Rhyddhawyd pennod yn ymwneud â'r brechlyn yn ystod **Wythnos Imiwneiddio Ewrop 2022** |
| **Rwmania**[138] | Bu'r Comisiwn Ewropeaidd, cyfryngau Rwmania, ac asiantaethau iechyd yn cydweithio i ddatblygu fideos byr yn cynnwys **tystiolaethau o bobl a gollodd anwyliaid i COVID-19**, a ddarlledwyd ar deledu a radio Rwmania |
| **Lloegr**[139] | Cymhwysodd cynghorau **dechnegau gwyddor ymddygiadol**:<br>✓ Segmentiad cyflym y gynulleidfa darged<br>✓ Defnyddiwyd fframwaith COM-B<br>✓ Datblygwyd pecynnau cymorth ar gyfer busnesau, staff, a'r cyhoedd<br>✓ Ystyriwyd y neges a'r negesydd wrth gysylltu â grwpiau lleiafrifol |
| **Yr Unol Daleithiau**[140] | "*The Conversation: Between Us, About Us*" - yn dileu rhwystrau ar gyfer Americaniaid Duon:<br>✓ **Lansiwyd fideo cyntaf gyda digrifwr ar y cyfryngau cymdeithasol;** sydd yn awr yn gweithio gyda **YouTube a Google i ymestyn cyrhaeddiad**<br>✓ Mae'n dangos **Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac ymchwilwyr Duon** yn cynnig gwybodaeth gredadwy<br>✓ **Yn creu "twll cwningen iach"**<br>✓ **Yn parchu pryderon pobl** |

131 *COVID-19 vaccine refusal, UK - Office for National Statistics (ons.gov.uk)*
132 *Covid-19 vaccination hesitancy | The BMJ*
133 *COVID-19 vaccination during pregnancy: coverage and safety - ScienceDirect*
134 *Women's views on accepting COVID-19 vaccination during and after pregnancy, and for their babies: a multi-methods study in the UK | SpringerLink*
135 *COVID-19 Vaccination in Pregnancy: The Benefits Outweigh the Risks - PMC (nih.gov)*
136 *Effect of a Concise Educational Program on COVID-19 Vaccination Attitudes - PMC (nih.gov)*
137 *ASPHER - Secretariat updates*
138 *Vaccination communication campaign (europa.eu)*
139 *https://www.local.gov.uk/our-support/coronavirus-information-councils/covid-19-good-council-practice/covid-19-behavioural*
140 *https://www.thenationshealth.org/content/51/3/7*


## Feirws y ffliw

Mae'r WHO yn argymell bod **darpariaeth y brechlyn ffliw yn cyrraedd neu'n rhagori ar 75% o bobl 65 oed a hŷn**[141]

- Mae **amrywiaeth fyd-eang sylweddol yn y ddarpariaeth frechu** (Ffigur 4)
- Argymhellir dosau atgyfnerthu blynyddol

***Ffigur 4. Cyfraddau'r brechiad ffliw (% o'r boblogaeth 65+ oed, 2021 neu'r diweddaraf sydd ar gael)***

*Ffynhonnell: OECD[142] (Ffigur heb fod ar gael yn Gymraeg)*




### Rhwystrau i frechu

Mae'r rhesymau posib dros ddarpariaeth brechlyn ffliw ostyngol yn cynnwys:[143]

- **Gweithgarwch ffliw isel yn y tymor blaenorol**
- **Newidiadau mewn ymddygiad manteisio ar ofal iechyd** sy'n arwain at lai o ymweliadau â darparwyr brechlynnau
- **Blinder brechlynnau** wedi'i achosi gan ymdrechion brechu COVID-19 parhaus
- Cred y bydd y brechlyn **COVID-19 yn diogelu** yn erbyn y ffliw

### Ymyriadau addysg y brechlyn ffliw

- Gallai cyfraddau brechu wella drwy **wybodaeth glir sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd ag ymgyrchoedd addysg cyffredinol** *(e.e., Diwrnod/Wythnos Ymwybyddiaeth y Ffliw Ewropeaidd)* wedi'i gyfeirio at bob poblogaeth[144]
- **Gallai ymyriadau addysgol nad ydynt yn wyneb yn wyneb**, megis negeseuon neu lythyrau wedi'u personoli sy'n ffocysu ar ddiogelwch ac effeithiolrwydd y brechlyn ffliw, yn enwedig i blant a'r henoed, hyrwyddo manteisio ar y brechlyn[145]

---

[141] *Adult flu vaccination coverage | The Nuffield Trust*
[142] *Health care use - Influenza vaccination rates - OECD Data*
[143] *Early, Low Estimates for Flu Vaccination Coverage in Some Groups Raise Concerns at CDC | CDC*
[144] *1108_MER_flu_behaviour.pdf (europa.eu)*
[145] *Effectiveness of Educational Intervention on Influenza Vaccine Uptake: A Meta-Analysis of Randomized Controlled Trials - PMC (nih.gov)*

| Astudiaethau achos: Ymgyrchoedd ffliw i gynyddu ymwybyddiaeth o risg a derbyn y brechlyn | |
|---|---|
| **Uzbekistan**[146] **(2019)** | Cynhaliodd y WHO a Gweinyddiaeth Iechyd Uzbekistan ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd. Darparwyd deunyddiau yn **Saesneg, Rwsieg, ac Uzbekeg** ac roedd yn cynnwys:<br>– **Taflenni gwybodaeth** a ddosbarthwyd mewn sefydliadau meddygol, ysgolion, meithrinfeydd, a mannau cyhoeddus prysur fel basarau a salonau harddwch<br>– **Fideos sy'n amlygu brechu fel y dull mwyaf effeithiol o atal y ffliw** a ddangoswyd mewn polyclinigau, ysbytai, archfarchnadoedd, a marchnadoedd |
| **Turkmenistan**[147] **(2018)** | **Roedd ymgyrch y Weinyddiaeth Iechyd, gyda phartneriaid yn y diwydiant meddygol, yn targedu grwpiau risg uchel**:<br>– Yr henoed<br>– Pobl feichiog<br>– Plant ifanc<br>– Pobl sydd â chydafiachedda u<br>– Gweithwyr iechyd<br>Paratowyd deunyddiau ymgyrchu yn **Tyrcmeneg a Rwsieg** ac roeddent yn cynnwys:<br>– **Posteri mewn polyclinigau, ysbytai, a sefydliadau addysgol**<br>– **Cystadleuaeth arlunio** (gyda gwobrau coffa) i blant ysgol |
| Kaunas, **Lithwania**[148] (2017) | Cynyddodd lefelau derbyn y brechlyn ffliw ymhlith menywod beichiog ar ôl prosiect prawf ar gyfer **Teilwra Rhaglenni Imiwneiddio WHO/Europe ar gyfer y ffliw tymhorol (TIP FLU)**<br>Ymysg y gweithgareddau oedd:<br>✓ Cyfres o **ddarlithoedd ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol**<br>✓ Darparu **deunyddiau gwybodaeth** a **hysbysebion mawr ar fysiau** |

[146] WHO conducts campaign to increase uptake of influenza vaccination in Uzbekistan
[147] Turkmenistan runs first Flu Awareness Campaign (who.int)
[148] "When I got more information, I was sure I needed the vaccine" – immunizing pregnant women against influenza in Kaunas, Lithuania (who.int)

## Poliomyelitis (polio)

Arweiniodd y **Fenter Gwaredu Polio Byd-eang (GPEI)**, a lansiwyd gan Gynulliad Iechyd y Byd ym 1998, at ostyngiad 99% mewn achosion o boliofeirws gwyllt.[149]

- **Mae dau o'r tri math** o boliofeirws gwyllt wedi'u **gwaredu** [149,150]
- Mae Math 1 yn dal i fod yn **endemig mewn dwy wlad: Pacistan ac Afghanistan**
- Mae Poliovirus yn dal i gael ei adrodd mewn gwledydd lle nad yw'n endemig gan gynnwys y DU
  - ✓ Ym mis Mehefin 2022, datganodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU 'digwyddiad anarferol o achosion cenedlaethol' ar ôl i'r poliofeirws gael ei adnabod mewn carthion yn Llundain am y tro cyntaf mewn bron i 40 mlynedd[151]
- Datblygodd y WHO **ganllawiau cyfathrebu ac ymfyddino cymdeithasol** i gefnogi ymdrechion gwaredu:[152]
  - ✓ Sianeli cyfathrebu
  - ✓ Negeseuon priodol i wahanol gynulleidfaoedd
  - ✓ Ymateb i sibrydion
  - ✓ Cyrraedd lleisiau nas clywir yn aml
  - ✓ Mae 'Strategaeth Gwaredu Polio 2022-2026: Cyflwyno'r Addewid'[153] wedi'i diweddaru'n cynnwys cyfathrebu fel cyfran graidd (Ffigur 5)


### Ymgyrchoedd cyfathrebu addysgol

| **Astudiaethau achos: Ymgyrchoedd cyfathrebu i wella diweddaru'r brechlyn polio** | |
|---|---|
| **UNICEF**[154] | – Mwy o ymgysylltu â'r gymuned drwy **wahanol strategaethau cyfathrebu sy'n briodol ar gyfer normau cymdeithasol a diwylliannol**<br>✓ **Seiliedig ar dystiolaeth**; ffocws ar **ddeialog a chyfranogiad cymunedol**<br>✓ **Mae gweithwyr cymunedol a gwirfoddolwyr lleol yn ymweld â phob aelwyd** i hysbysu a chefnogi imiwneiddio yn erbyn polio, ymdrin â phryderon a chamwybodaeth<br>✓ **Ymrwymiad gan arweinwyr crefyddol a dinesig**<br>– **Integreiddio negeseuon atal ac iechyd cyhoeddus** (e.e., maeth, a gwasanaethau dŵr, glanweithdra a hylendid i ymgyrchoedd brechu yn erbyn polio |
| **Afghanistan** [155] | – Nododd y **Cynllun Gweithredu Brys Cenedlaethol ar gyfer Gwaredu Polio** (NEAP) 2021 resymau dros wrthod y brechlyn gan gynnwys gwrthwynebiad crefyddol a blinder ymgyrchoedd<br>– Canolbwyntiodd NEAP ar ymyriadau cyfathrebu, gan adeiladu ar lwyddiant blaenorol, gan gynnwys:<br>✓ **Darparu deunyddiau hyrwyddo â brand polio i gymunedau sydd mewn perygl** er mwyn mwyhau'r nifer sy'n derbyn y brechlyn a hyrwyddo arferion iechyd perthnasol eraill (e.e., hybu hylendid)<br>✓ Cynnal **hyfforddiant ar lefel genedlaethol o aelodau'r Grŵp Cynghori Islamaidd Cenedlaethol ac ysgolheigion/mullahs crefyddol** sy'n canolbwyntio ar frechu, iechyd plant, a sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol ar gyfer polio a hyrwyddo imiwneiddio rheolaidd<br>– **Defnydd effeithiol o gyfryngau torfol a chyfryngau cymdeithasol i gyrraedd cynulleidfaoedd mawrion**, gan gynnwys gwefan polio a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol |

[149] *Poliomyelitis (polio) (who.int)*
[150] *GPEI – Global Polio Eradication Initiative*
[151] *Poliovirus returns to the UK after nearly 40 years: current efforts and future recommendations (bmj.com)*
[152] *2-ct-polio (who.int)*
[153] *GPEI Strategy 2022-2026 – GPEI (polioeradication.org)*
[154] *Eradicating polio | UNICEF*
[155] *Afghanistan_NEAP_2021.pdf (polioeradication.org)*

| | |
|---|---|
| Israel[156] | – **Canfuwyd poliofeirws gwyllt yn 2013 gan systemau gwyliadwriaeth**; **bu gwrthwynebiad i ymgyrchoedd brechu dilynol** oherwydd diffyg dealltwriaeth y gallai plant wedi'u brechu barhau i ledaenu polio<br>– **Goruchwyliaeth o gyfathrebiadau ar farn a phryderon y cyhoedd**, e.e., bu i **fonitro cyfryngau cymdeithasol** nodi protest gwrth-frechu a gynlluniwyd<br>– **Gofynnodd y Weinyddiaeth Iechyd i bobl a ddatblygodd barlys gysylltiedig â polio siarad yn y brotest** |

***Ffigur 5. Strategaeth Gwaredu Polio 2022–2026 - fframwaith strategol***
*Ffynhonnell: GPEI[157] (Ffigur heb fod ar gael yn Gymraeg)*




[156] Vaccination and trust: How concerns arise and the role of communication in mitigating crises (who.int)
[157] GPEI Strategy 2022-2026 – GPEI (polioeradication.org)

Datblygwyd yr adroddiadau Sganio Gorwelion Rhyngwladol a Dysgu gan y Tîm Iechyd Rhyngwladol / y Ganolfan Cydlynu Iechyd Rhyngwladol (IHCC) yng Nghanolfan Gydweithredol WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC), Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, WHO CC: Sumina Azam
Arweinydd iechyd rhyngwladol a Dirprwy Gyfarwyddwr WHO CC: Mariana Dyakova
Awduron a chyfranwyr: Abigail Malcolm, Leah Silva, Lauren Couzens, Golibe Ezenwugo, Sara Cooklin Urbano, Aimee Challenger, Emily Clark, Mariana Dyakova

Pobl Gyswllt: Emily.Clark4@wales.nhs.uk; Mariana.Dyakova@wales.nhs.uk

Mae pob adroddiad ar gael yn: https://phwwhocc.co.uk/covid-19/sganio-gorwelion-rhyngwladol/?lang=cy

https://phwwhoc

/Phwwhocc

@phwwhocc

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being